KERRI STRUG

Un ymdrech arall

(ymdrech / aberth / penderfyniad)

Fyddwch chi'n chwilio am esgusodion weithiau? Ddim llawer o awydd mynd i'r ysgol? Dolur gwddw neu ychydig o annwyd. Wedi anafu eich braich, felly dim gwersi piano heno. Ac, fel arfer, mae'r esgusodion yn gweithio. Ond dyma i chi hanes un a aeth ymlaen er gwaethaf ei hanafiadau.

Yn y gêmau Olympaidd yn Barcelona, ym 1992, roedd Kerri Strug yn aelod o'r tîm gymnasteg gafodd y fedal efydd am eu campau ac felly, yn y Gêmau yn Atalanta bedair blynedd yn ddiweddarach, roedd y disgwyliadau'n uchel. Roedd y tîm gymnasteg o'r Unol Daleithiau yn anelu at y brif wobr – y fedal aur. Roedd y gystadleuaeth yn ei hanterth. Roedd cystadleuwyr tîm Rwsia, oedd ar y pryd yn ail, wrthi ar y campau llawr tra oedd tîm yr Unol Daleithiau, oedd ymhell ar y blaen, ar y fowt. Yma ar y fowt roedd Strug wedi disgleirio yn y gorffennol. Roedd ei chyd-gystadleuwyr, Phelps, Chow, Miller a Dawes, yn barod wedi sgorio marciau uchel ond sgôr isel o 9.2 a gafodd Morceanu. A phetai Strug yn gwneud yn eithriadol o dda byddai modd rhagori ar sgôr Morceanu. Ond daeth tro ar fyd!

Daeth ymlaen yn hyderus i wneud yr ystum un a hanner Yurchenko roedd hi wedi ei wneud droeon o'r blaen yn llwyddiannus ond, y tro hwn, digwyddodd rhywbeth ac fe laniodd ar wastad ei chefn ar y llawr. Roedd ei sgôr o 9.162 yn ddigon drwg ond fe waethygodd pethau'n ddirfawr. Am rai munudau doedd hi ddim yn gallu symud ei chorff o gwbl. Gorweddai yno'n ddiymadferth. Dywedodd wrth y meddygon o'i chwmpas ei bod wedi clywed sŵn rhywbeth yn rhoi yn ei choes a bod y boen ar hyd ei choes yn annioddefol. Ar ôl rhai munudau oedd yn teimlo fel oriau, llwyddodd, gyda help y meddygon, i gyrraedd ymyl y stadiwm. Beth oedd yn mynd i ddigwydd? Roedd pob eiliad yn dyngedfennol. Oedd hi am roi cynnig arall ar ystum un a hanner Yurchenko neu adael i sgôr Morceanu aros ar 9.2?

Meddai wrth weddill y tîm, "Fedra i ddim mynd ymlaen. Does yna ddim teimlad o gwbl yn fy nghoes. Mae'n ddiffrwyth drwyddi." Edrychodd ei hyfforddwr Béla Karolyi arni'n dosturiol ac meddai, "Kerri, mae'n rhaid i ni gael sgôr o 9.6." Daeth dagrau i lygaid Kerri a beichiodd grio. Roedd ei chyd-gystadleuwyr o'i

chwmpas yn ei hannog i fynd ymlaen. Doedden nhw ddim yn gwybod pa mor ddrwg oedd ei hanafiadau.

Cododd Kerri ar ei thraed a cherddodd yn hyderus. Roedd hi'n benderfynol o gael un cynnig arall, doed a ddelo. Llwyddodd ag un ymdrech arbennig a syrthiodd i'r llawr mewn mwy o boen nag erioed. Yn ôl y meddygon roedd hi wedi rhwygo dau ewyn yn ei choes a rhoddwyd rhwymyn am ei choes. Ond beth oedd barn y beirniaid am ei champ.

Rhoddwyd sgôr o 9.712 iddi. Roedd tîm yr Unol Daleithiau wedi ennill y fedal aur a chariwyd Kerri i'r rostrwm gan ei hyfforddwr Béla Karolyi i dderbyn ei medal aur haeddiannol.

Adnod: "Nid oes gan neb gariad mwy na hyn, sef bod rhywun yn rhoi ei einioes dros ei gyfeillion." Ioan 15:13

Gweddi: Diolch i ti, O Dduw, am fywyd Iesu Grist a'i aberth ar y groes. Amen.

Trafod:

- Beth yw eich barn chi am ymdrech olaf Strug? Tybed a oedd hi'n ffôl yn gwneud y fath beth a hithau mewn poen?
- Pa mor bwysig ydi bod yn aelod o dîm? Ydych chi'n credu fod Strug wedi aberthu er mwyn ei chyd-gystadleuwyr?